**Y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ARD 15-01(min)**

**Cofnodion**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 24 Hydref 2001 |
| **Amser:** | 2.00pm i 5.15pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora, Adeilad Cynulliad Cenedlaethol Cymru |

Yn bresennol

| | |
|---|---|
| *Aelodau* | |
| Glyn Davies, Cadeirydd | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Mick Bates | Trefaldwyn |
| Jocelyn Davies | Dwyrain De Cymru |
| Delyth Evans | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| John Griffiths | Dwyrain Casnewydd |
| Carwyn Jones | Pen-y-bont ar Ogwr |
| Elin Jones | Ceredigion |
| Peter Rogers | Gogledd Cymru |
| Rhodri Glyn Thomas | Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |
| *Swyddogion* | |
| Huw Brodie (eitemau2, 3 a 4) | Pennaeth Yr Adran Amaethyddiaeth |
| Rory O'Sullivan (eitem 2) | Pennaeth yr Is-adran Polisi Amaethyddol a Physgodfeydd |
| Colin Williams (eitem 4) | Pennaeth yr Is-adran Iechyd Anifeiliaid |
| Kirsty Kirk (eitemau 2 a 4) | Ymgynghorydd Milfeddygol |
| Huw Jones (eitem 2) | Yr Is-adran Cefn Gwlad |
| Terri Thomas (eitem 3) | Yr Is-adran Datblygu Bwyd a Ffermio |
| *Ysgrifenyddiaeth* | |
| Adrian Crompton | Clerc y Pwyllgor |
| Howell Rees | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Eitem 1: Ymddiheuriadau, dirprwyadau a datganiadau o fudd**

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Janet Ryder a Huw Lewis. Roedd Rhodri Glyn Thomas yn dirprwyo dros Janet Ryder.

1.2 Datganodd y Cadeirydd fudd fel partner mewn busnes ffermio. Datganodd Peter Rogers fudd fel ffermwr, Mick Bates fel partner mewn busnes ffermio.

1.3 Gofynnodd y Cadeirydd am farn y pwyllgor ar y dyddiad olaf ar gyfer derbyn ymatebion i'w ymgynghoriad ar effaith gwahardd hela gyda ch^wn. Cytunodd y Pwyllgor y dylid cadw at 16 eg Tachwedd ac na ddylid derbyn unrhyw ddeunydd ar ôl y dyddiad hwnnw.

**Eitem 2: Adroddiad y Gweinidog** - ARD 15-01(p1)

2.1 Gofynnodd y Cadeirydd i'r Pwyllgor yn gyntaf ystyried y chwe rheoliad drafft a gyfeiriwyd ato gan y Dirprwy Lywydd dan Reol Sefydlog 22.5.. Dywedodd y Gweinidog fod ei adroddiad yn nodi'r amserlen ar gyfer ystyried y rheoliadau sydd i ddod gerbron y Cyfarfod Llawn yn ystod wythnos gyntaf mis Tachwedd. Byddai'r Grwp Strategaeth Addasu Genetig yn ystyried y rheoliadau ar 30 Hydref. Dywedwyd bod y Pwyllgor Busnes wedi cael gwybod fod y rheoliadau drafft wedi cael eu hystyried yn barod gan y Gr^wp Strategaeth. Roedd y ffaith nad oedd hyn wedi digwydd wedi bod yn un o'r ffactorau pam y bu i'r Pwyllgor Busnes argymell eu cyfeirio at y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig.

2.2 Nodwyd nad oedd arfarniad rheoliadol wedi cael ei gynnal gan fod y goblygiadau cost mor fychan. Gofynnwyd i'r Gweinidog pa reolyddion oedd yn bodoli i atal y defnydd masnachol o hadau a oedd yn dod dan y rheoliadau. Gellid defnyddio'r hadau ar gyfer gwaith dethol planhigion, ond dim ond os rhoddwyd cydsyniadau rhyddhau perthnasol ar eu cyfer.

2.3 Gofynnwyd i'r Gweinidog am ei farn ar y cyfarwyddiadau labelu sy'n cael eu hystyried ar hyn o bryd gan Senedd Ewrop. Dywedodd y Gweinidog ei fod wedi hysbysu llywodraeth y DU o'i farn a byddai'r farn honno'n cael ei chynnwys mewn papur y byddai'n ei gyflwyno i'r Grwp Strategaeth Addasu Genetig ar gyfer ei gyfarfod ar 30 Hydref. Byddai hefyd yn ystyried barn y Grwp ar rôl y pwyllgor yn y dyfodol yn ystyried materion cnydau a addasir yn enetig.

2.4 Mynegwyd y farn ei bod yn bwysig i'r pwyllgor ystyried materion Addasu Genetig gan nad oedd y Grwp Strategaeth Addasu Genetig yn un o bwyllgorau ffurfiol y Cynulliad. Cytunodd y Gweinidog i ystyried rôl y Pwyllgor Strategaeth Addasu Genetig ar gyfer y dyfodol a'i berthynas gyda'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig.

2.5 Gofynnwyd i'r Gweinidog pa berthynas oedd gan y rheoliadau â Rheoliadau Hadau (Rhestri Isrywogaethau Cenedlaethol) 2001 a gymeradwywyd gan y Cyfarfod Llawn y diwrnod blaenorol a pham nad oedd y rheoliadau wedi cael eu rhoi gerbron i'w hystyried yn gynt. Nododd y Pwyllgor fod y rheoliadau drafft yn deillio o'r rhai a oedd wedi cael eu cymeradwyo'n barod yn y Cyfarfod Llawn. Dywedodd y Gweinidog fod y rheoliadau wedi bod yn yr arfaeth ers oddeutu 12 mis a bod y Grwp Strategaeth Addasu Genetig yn ymwybodol o hyn.

2.6 Mynegwyd yn gryf y farn nad oedd gan y pwyllgor ddigon o amser i ystyried y rheoliad drafft yn

iawn, ac o'r herwydd nid oedd yn gallu argymell iddynt gael eu cymeradwyo. Teimlai aelodau eraill, er bod amser yn brin, y dylid cymeradwyo'r rheoliadau drafft oherwydd yr achosion torri rheolau sydd yn yr arfaeth.

2.6 Cynigwyd y dylai'r pwyllgor argymell cymeradwyo'r rheoliadau heb welliant. Pleidleisiodd y pwyllgor ar y cynnig fel a ganlyn:

*y dylai'r pwyllgor argymell cymeradwyo'r rheoliadau heb welliant*

| | |
|---|---|
| Glyn Davies | O blaid |
| Mick Bates | O blaid |
| Jocelyn Davies | Ymatal |
| Delyth Evans | O blaid |
| John Griffiths | O blaid |
| Carwyn Jones | O blaid |
| Elin Jones | Ymatal |
| Peter Rogers | O blaid |
| Rhodri Glyn Thomas | Ymatal |

2.7 Cymeradwywyd y cynnig o chwe phleidlais i ddim gyda thri yn ymatal. Gwelir adroddiad y pwyllgor i'r Cynulliad dan Reoliad Sefydlog 22.7 yn atodiad 1.

2.8 Cododd y Cadeirydd y mater o bwerau iechyd anifeiliaid y teimlai ef y dylid eu datganoli i'r Cynulliad a gofynnodd i'r Gweinidog am ei farn. Dywedodd y Gweinidog fod pwerau dan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981 sy'n ymwneud â'r rhan fwyaf o glefydau anifeiliaid, gan gynnwys clwy'r traed a'r genau, yn parhau i fod yn gyfrifoldeb Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA). Ar wahân i'r Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol, nid oedd gan DEFRA unrhyw staff yng Nghymru ac yn ystod clwy'r traed a'r genau roedd rhaid i'r Adran ddibynnu ar gefnogaeth staff y Cynulliad. Mae'r Gweinidog yn ystyried opsiynau ar gyfer y dyfodol. Nododd fod goblygiadau cost sylweddol i'r Cynulliad a chytunodd i gynnwys nodyn ar ffyrdd posibl ymlaen yn ei adroddiad i'r cyfarfod nesaf. Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y gallai hyn gynnwys ystyried y trefniadau gogyfer â'r Bwrdd Ymyrraeth. Cefnogodd y pwyllgor yr egwyddor o ddatganoli swyddogaethau pellach dan Ddeddf 1981 i'r Cynulliad.

2.9 Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor fod newidiadau i gyfyngiadau clwy'r traed a'r genau wedi cael eu cyhoeddi ddydd Llun. Roedd Gogledd Powys yn awr yn Ardal Rydd. Roedd De Powys, Sir Fynwy, Blaenau Gwent, Torfaen, Caerffili, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf yn awr yn ardaloedd Mewn Perygl a byddent yn cael eu trin fel un ardal at ddibenion symud, o wybod bod y cyngor milfeddygol a gafwyd yn nodi na ddylid caniatáu symud defaid y tu allan i'r ardal estynedig hon. Byddai angen profion seroleg cyn y byddai caniatâd yn cael ei roi i symud defaid. Y flaenoriaeth yn awr yw

cwblhau'r profion gwaed ehangach yn y Parthau Arolygu er mwyn i'r ardaloedd hyn gael eu henwi yn ardaloedd rhydd o glwy'r traed a'r genau cyn gynted â phosibl.

2.10 Er bod gogledd Powys erbyn hyn yn ardal Rydd, nodwyd nad oedd y sefyllfa yn ôl i'r drefn arferol. Roedd angen trwyddedau o hyd i symud anifeiliaid ac roedd y marchnadoedd da byw yn dal ar gau. Roedd y sefyllfa yr un fath ymhob ardal sy'n rhydd o'r clwy. Gofynnwyd i'r Gweinidog pryd y byddai'r sefyllfa yn dod yn ôl i'r drefn arferol a'r marchnadoedd yn ailgychwyn. Dywedodd wrth y Pwyllgor fod DEFRA wedi nodi'n flaenorol mai annhebygol fyddai gweld marchnadoedd yn agor fawr cynt na misoedd cynnar 2002. Gallai eu hailagor yn rhy gynnar beri fod y clwy yn ailddechrau.

2.11 Teimlai rhai aelodau ei fod yn bwysig i'r Cynulliad gynnal ymchwiliad cyhoeddus i glwy'r traed a'r genau yng Nghymru. Dywedodd y Gweinidog nad oedd gan y Cynulliad bwerau mewn sawl maes perthnasol ac felly byddai'n dibynnu ar ymchwiliadau Llywodraeth y DU. Nid oedd o blaid cynnal ymchwiliad cyhoeddus yng Nghymru, ond byddai'r Cynulliad yn cyfrannu at yr ymholiadau perthnasol yn y DU. Y gobaith oedd y byddai'r ymchwiliadau yn adrodd o fewn chwe mis.

2.12 Gofynnwyd i'r Gweinidog pryd y gallai hela ailgychwyn i reoli plâu, gan ei fod yn cael ei wahardd ar hyn o bryd oherwydd clwy'r traed a'r genau. Nododd y Pwyllgor fod y cyfyngiadau yn sgîl clwy'r traed a'r genau yn cael eu hadolygu'n barhaus ac roedd hyn yn cynnwys trefniadau ar gyfer hela a saethu. Cytunodd y Gweinidog i gynnwys nodyn ar hela a rheoli plâu yn ei adroddiad nesaf i'r pwyllgor.

2.13 Gofynnwyd am sicrwydd y byddai adnoddau digonol ar gael i sicrhau nad oedd unrhyw oedi gyda dosbarthu trwyddedau symud da byw. Dywedodd y Gweinidog mai'r awdurdodau lleol sy'n rhedeg y system drwyddedu ar ran DEFRA. Nid oes gan y Cynulliad gyfrifoldeb uniongyrchol. Nododd y Pwyllgor mai DEFRA oedd yn cwrdd â'r costau ychwanegol i'r awdurdodau lleol o redeg y system trwyddedu symudiadau anifeiliaid.

2.14 Gofynnwyd i'r Gweinidog beth fyddai newid i statws y clwy yn ei olygu i fusnesau ymwelwyr yn ne Powys. Oherwydd y sefyllfa ryngwladol, mae'n debygol y byddai marchnad dwristiaeth fewnol y DU yn tyfu ac mae'n bwysig i bobl yn y diwydiant twristiaeth ymelwa o hyn. Nododd y Pwyllgor fod llwybrau a thir comin yn cael eu hailagor cyn gynted â phosibl ond roedd cyfyngiadau yn parhau yn angenrheidiol o fewn tri chilomedr i ffermydd heintiedig. Roedd y Cynulliad yn cydgysylltu'n agos gydag awdurdodau lleol i helpu'r sector twristiaeth.

2.15 Yn ei adroddiad diweddar i lywodraeth y DU, roedd yr Arglwydd Haskins wedi dweud nad oedd angen cau llwybrau a gofynnwyd i'r Gweinidog am ei farn. Dywedodd fod y polisi o gau llwybrau wedi dod i rym pan gychwynnodd clwy'r traed a'r genau a hynny ar sail cyngor milfeddygol. Y farn bryd hynny oedd y byddai cau'r llwybrau yn lleihau'r perygl o ledaenu'r clwy.

2.16 Oherwydd pris uchel cig oen ar y cyfandir roedd taliadau Premiwm Blynyddol Defaid am eleni yn is nag o'r blaen. Gofynnwyd i'r Gweinidog a ellid talu iawndal. Roedd ffermwyr wedi colli arian hefyd ar dda byw pan gafwyd oedi gyda'r Cynllun Dros Dri Deg Mis Oed oherwydd cyfyngiadau clwy'r traed

a'r genau. Dywedodd y Gweinidog ei fod yn codi'r materion hyn yn gyson gyda'i gydweithwyr yn y DU ac yn Ewrop. Byddai'n ysgrifennu at yr aelod am y Cynllun Dros Dri Deg Mis Oed.

2.17 Erbyn hyn gellid allforio cig mochyn i Ewrop ond deellid bod ffermwyr Cymru yn wynebu oedi gan nad oedd y ddeddfwriaeth angenrheidiol yn ei lle. Nododd y Pwyllgor nad oedd Penderfyniad perthnasol y Comisiwn wedi'i dderbyn tan 22 Hydref a bod y Cynulliad wedi deddfu'r diwrnod hwnnw er mwyn rhoi grym cyfreithiol i ailgychwyn allforion cig mochyn. Parthed trwyddedu, roedd swyddogion yn gweithio'n agos gyda DEFRA i sefydlu system a oedd yn bodloni gofynion y Penderfyniad yn llawn, yn arbennig o ran manwlgywirdeb cofnodion symud.

2.18 Gofynnwyd i'r Gweinidog pa drefniadau oedd ar gael i arfarnu Cyswllt Ffermio a'r Cynllun Adfer Cefn Gwlad. Cytunodd y Gweinidog i gynnwys nodyn ar y rhain yn ei adroddiad nesaf i'r pwyllgor.

2.19 Gofynnwyd i'r Gweinidog sawl oen ysgafn a oedd wedi mynd i'r Cynllun Cwl Gwaredu Da Byw ar Sail Lles. Dywedodd y Pwyllgor fod 136,000 oen wedi mynd yn barod ac roedd 5,000 yn disgwyl mynd. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau gan ffermwyr oedd 26 Hydref.

2.20 Mynegwyd pryder bod cyfradd y taliadau dan y cynllun cwlio ar sail lles i'w gostwng. Dywedodd y Gweinidog fod DEFRA wedi gofyn am sylwadau ar y gostyngiadau a argymhellir cyn cyfarfod buddianwyr y diwydiant ar 26 Hydref. Roedd wedi derbyn sylwadau ar y mater a oedd wedi cael eu trosglwyddo i DEFRA.

*Pwyntiau gweithredu*

2.21 Nodyn ar botensial datganoli pwerau iechyd anifeiliaid ymhellach i'r Cynulliad i'w gynnwys yn adroddiad y Gweinidog i'r cyfarfod nesaf – **Gweinidog** (Is-adran Iechyd Anifeiliaid)

2.22 Nodyn ar ailgychwyn hela at ddibenion rheoli plâu i'w gynnwys yn adroddiad y Gweinidog i'r cyfarfod nesaf – **Gweinidog** (Is-adran Polisi Amaethyddiaeth a Physgodfeydd)

2.23 Nodyn ar drefniadau monitro ar gyfer Cyswllt Ffermio a'r Cynllun Adfer Cefn Gwlad i'w gynnwys yn adroddiad y Gweinidog i'r cyfarfod nesaf – **Gweinidog** (Is-adran Datblygu Bwyd a Ffermio)

**Eitem 3: Cyllideb** - ARD 15-01(p2)

3.1 Mewn trafodaeth ar y gyllideb ddrafft ar gyfer datblygu amaethyddiaeth a chefn gwlad, mynegodd aelodau bod diffyg tryloywder yn y ffigurau a gyflwynir. Roedd hi'n amhosibl pennu cyllid ar gyfer y Cynllun Adfer Cefn Gwlad a Cyswllt Ffermio. Roedd diffyg gwybodaeth o'r fath yn ei gwneud yn anodd i'r pwyllgor fonitro cynlluniau gwariant. Dywedodd y Gweinidog fod cyllid ychwanegol wedi cael ei gyhoeddi ar gyfer y Cynllun Adfer Cefn Gwlad ar 27 Gorffennaf ond nad oedd y cyfan ohono o fewn cyllideb Datblygu Amaethyddiaeth a Chefn Gwlad. Mae'r gyllideb ar gyfer Cyswllt Ffermio yn dod o sawl llinell gyllideb wahanol a byddai esboniad ysgrifenedig yn cael ei ddarparu ar Cyswllt

Ffermio a'r Cynllun Adfer Cefn Gwlad. Gofynnwyd i'r Gweinidog i'r nodyn wahaniaethu rhwng cyllid y Cynulliad a chyllid Ewropeaidd.

3.2 Roedd llinell y gyllideb ar gyfer Cyhoeddusrwydd wedi codi o £500,000 yn 2002-03 a gofynnwyd am eglurhad. Dywedodd y Gweinidog fod clwy'r traed a'r genau wedi dangos pa mor bwysig yw dull effeithiol o ddosbarthu gwybodaeth i ffermwyr. Dywedodd y pwyllgor fod £250,000 wedi cael ei neilltuo ar gyfer lansio cylchgrawn misol yn trafod amrediad eang o faterion. Roedd y gweddill i'w ddefnyddio ar gyfer datblygu'r wefan ymhellach a chynhyrchu taflenni technegol a thaflenni cyngor.

3.3 Roedd Tir Gofal wedi bod yn un o flaenoriaethau'r pwyllgor ond roedd yn ymddangos nad oedd mwy o arian ar gael. Dywedodd y pwyllgor fod y llinell wariant ar gyfer Tir Gofal wedi cynyddu o £10.9 miliwn yn 2001-02 i £16.9 miliwn yn 2003-04 yn unol â'r cynlluniau cyhoeddedig. Amhosibl oedd nodi faint yn union o gytundebau ychwanegol y gellid eu hariannu o ganlyniad gan y byddai hyn yn dibynnu ar eu cynnwys. Roedd trafodaeth ar gyfrifiad stoc Tir Gofal i'w gynnal yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor.

3.4 Roedd y Cynulliad yn annog ffermwyr i newid i gynhyrchu organig trwy gynnig Grantiau i Drawsnewid i Ffermio Organig, ond roedd prisiau am gynnyrch organig yn disgyn oherwydd mewnforion cymorthdaledig o Ewrop. Gofynnwyd i'r Gweinidog sut y gellid helpu'r cynhyrchwyr. Dywedodd fod y penderfyniad i drawsnewid yn un masnachol ar gyfer busnesau unigol. Un o nifer o strategaethau oedd cynhyrchu organig, ond ni fyddai'n addas i bawb. Cydnabu fod y farchnad yn arafu ar hyn o bryd a'i bod yn tueddu i dyfu fesul cam.

3.5 Cyfeiriwyd at gynllun peilot yn Ardal y Llynnoedd lle’r oedd ffermwyr yn gwirfoddoli i gyfuno taliadau cymhorthdal a oedd yn cael eu hailddosbarthu wedyn dan gynlluniau "ail biler" y Polisi Amaethyddol Cyffredin. Darperid arian cyfatebol gan yr Asiantaeth Cefn Gwlad ac awgrymwyd y gellid gweithredu cynlluniau tebyg yng Nghymru gan ddefnyddio arian Amcan 1. Nododd y pwyllgor nad oedd y cynllun wedi derbyn cymeradwyaeth y Comisiwn Ewropeaidd eto. Nid oedd y cynllun yn darparu arian ychwanegol ond yn newid y llwybr ariannu ac nid oedd yn glir a ellid defnyddio arian cyfatebol. Petai'r cynllun yn derbyn cymeradwyaeth byddai'r defnydd posibl ohono yng Nghymru yn cael ei ystyried.

3.6 Nodwyd bod y llinell gyllideb ar gyfer Lladd-dai Bychain yn cael ei gostwng. Eglurodd y Gweinidog fod yn hyn yn adlewyrchu'r costau is wrth weithredu argymhellion adroddiad Maclean.

3.7 Nododd y pwyllgor fod costau ar gyfer yr Panel Apêl Annibynnol yn cael eu cwrdd o linell gyllideb y Pwyllgor/ymholiadau.

3.8 Cytunwyd y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu at y Gweinidog yn mynegi barn y pwyllgor ar y gyllideb ddrafft. Ceir copi o'r llythyr yn atodiad 2.

*Pwyntiau gweithredu*

3.9 Esboniad ar drefniadau ariannu'r Cynllun Adfer Cefn Gwlad a Cyswllt Ffermio i'w ddarparu, gan wahaniaethu rhwng arian y Cynulliad ac arian Ewropeaidd. Dylid cynnwys cyfanswm y symiau sydd ynghlwm wrth y cynlluniau ac eglurhad ynghylch sut y maent yn cael eu defnyddio yn y gyllideb - **Gweinidog** (Is-adran Datblygu Bwyd a Ffermio).

**Eitem 4: Cynllunio wrth gefn gyda BSE** - ARD 15-01(p3)
4.1 Dywedodd y Gweinidog fod cynlluniau wrth gefn wedi'u paratoi ledled yr Undeb Ewropeaidd rhag perygl damcaniaethol BSE mewn defaid.

4.2 Roedd rôl swyddogion y Cynulliad yn bwysig wrth bwyso am brofion DNA ar samplau o ymenyddiau. Roedd hyn wedi arwain at ddarganfod fod y deunydd o ymenyddiau a oedd yn cael eu profi wedi dod o wartheg yn hytrach nag o ddefaid. Nododd y pwyllgor fod hyn yn enghraifft o'r ffordd y mae gwersi o Adroddiad Philips ar BSE mewn gwartheg yn cael eu dysgu a'u defnyddio.

4.3 Dywedodd rhai aelodau fod adroddiadau yn y wasg yn awgrymu fod yr Asiantaeth Safonau Bwyd wedi cynghori yn erbyn defnyddio cig oen Cymru mewn bwyd i fabanod wedi bod yn niweidiol i gynhyrchwyr Cymru. Dywedodd y Gweinidog fod cyngor yr Asiantaeth yn parhau yn glir ac yn annibynnol.

4.4 Gofynnwyd i'r Gweinidog am fwy o fanylion ar y cynllun genoteipio defaid Cymreig. Nododd y pwyllgor fod y profion yn canolbwyntio ar ddefaid magu yn niadell niwclews y Strategaeth Defaid Cymreig. Byddai'r cynllun yn helpu i gyflymu'r broses o gael gwared ar glefyd y crafu o'r ddiadell Gymreig. Yn ogystal, roedd gweithgor wedi cael ei sefydlu er mwyn ystyried dulliau eraill ar gyfer cyflymu'r broses. Nod Cynllun Cenedlaethol Clefyd y Crafu ledled Prydain Fawr oedd cael gwared ar y clefyd mewn 10 mlynedd o leiaf. Fodd bynnag mae'r Cynulliad yn chwilio am opsiynau a fydd yn gostwng yr amser yma gryn dipyn yng Nghymru.

**Eitem 5: Adolygiad yr Iaith Gymraeg**

5.1 Croesawodd y Cadeirydd Rhodri Glyn Thomas, Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, i'r cyfarfod a gofynnodd iddo amlinellu pwrpas yr adolygiad a rôl bosibl y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig.

5.2 Dywedodd Mr Thomas fod pump prif thema wedi cael eu nodi a fyddai o gymorth i ddarparu'r strwythur ar gyfer yr Adolygiad a'r adroddiad terfynol. Dyma'r themâu:

- Teuluoedd a Chymunedau;
- Datblygu Economaidd;
- Ymchwil a Datblygu;
- Hyrwyddo Dwyieithrwydd a Chynnal y Consensws a'r Ewyllys Da Cenedlaethol: a
- Strwythurau Cyflwyno a Buddsoddiad Cyhoeddus.

5.3 Gallai'r thema teuluoedd a chymunedau fod yn faes y gallai'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ganolbwyntio arno oherwydd ei gylch gorchwyl cefn gwlad.

5.4 Clywsai'r Pwyllgor Diwylliant dystiolaeth fod yr Iaith Gymraeg yn crebachu yn ei chadarnleoedd gwledig traddodiadol. Ym 1961, cofnododd 279 cymuned ledled Cymru fod o leiaf 80% o'u preswylwyr yn gallu siarad Cymraeg. Fodd bynnag, erbyn 1991, dim ond 32 o'r cymunedau hyn oedd ar ôl. Mae cynnal y mas critigol hwn yn hanfodol os oedd y iaith i barhau.

5.5 Awgrymwyd dulliau i atal y gostyngiad hwn ac maent yn cynnwys:

- Dylai'r Cynulliad lunio strategaeth gydag awdurdodau lleol, Awdurdod Datblygu Cymru ayb. er mwyn creu a chadw swyddi sy'n ddigonol ar gyfer diwallu anghenion Cymru wledig a dymuniadau'r gweithlu lleol;

- Dylai awdurdodau lleol roi blaenoriaeth i breswylwyr lleol o fewn y farchnad dai;
- Dylid defnyddio pwerau cynllunio mewn modd adeiladol er mwyn diogelu cymunedau Cymraeg eu hiaith (mae pwerau o'r fath wedi cael eu defnyddio ym Mharciau Cenedlaethol Ardal y Llynnoedd ac Exmoor);
- Dylid annog pobl sy'n symud i'r ardaloedd Cymraeg eu hiaith i ddysgu'r iaith.

5.6 Dywedodd Mr Thomas y byddai'r Pwyllgor Diwylliant yn gwerthfawrogi barn y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ynghylch sut i atal dirywiad yr iaith yn ei chadarnleoedd gwledig.

5.7 Teimlai'r Cadeirydd ei bod yn bwysig fod cydymdeimlad ac ewyllys da siaradwyr Saesneg tuag at yr iaith Gymraeg yn cael ei gadw. Roedd y Gymraeg cyn gryfed yn y diwydiant amaethyddol ag unrhyw sector arall, yn enwedig ar y fferm deuluol draddodiadol, ac mae cefnogaeth barhaus y Cynulliad i amaethyddiaeth yn helpu i ddiogelu'r iaith. Mae gan ffermio rhan amser ran i'w chwarae hefyd. Gofynnodd am farn aelodau eraill.

5.8 Roedd rhai o'r cadarnleoedd Cymraeg eu hiaith traddodiadol yn yr ardaloedd trefol yn ogystal â'r ardaloedd gwledig, er enghraifft cymoedd glo Gorllewin Cymru. Roedd angen hyrwyddo'r iaith yn yr ardaloedd hyn hefyd. Mewn rhai amgylchiadau gallai ysgolion Cymraeg eu hiaith gael effaith niweidiol ar yr iaith mewn rhai ardaloedd Cymraeg.

5.9 Roedd y newid ym mhatrymau gwaith traddodiadol yn gysylltiedig â dirywiad yr iaith. Roedd yr un peth yn digwydd erbyn hyn yn y diwydiant amaethyddol wrth i bobl ifanc adael eu cymunedau i chwilio am waith. Felly gallai rôl y pwyllgor yn natblygiad economaidd ardaloedd gwledig gael effaith sylweddol ar gadw'r iaith. Meysydd eraill y gallai'r pwyllgor eu hystyried oedd tai ar gael y gall pobl eu fforddio, barn pobl ifanc ar gyfleoedd cymdeithasol a hamdden a chyfleoedd addysg oedolion mewn ardaloedd gwledig.

5.10 Dylai'r Cynulliad ystyried annog drafftio-ar-y-cyd wrth baratoi deddfwriaeth a dogfennau eraill, a hynny yn y ddwy iaith ar yr un pryd yn hytrach na chyfieithu o'r naill iaith i'r llall. Roedd angen cael esboniad ar bwerau'r Cynulliad parthed yr iaith Gymraeg.

5.11 Ni ddylid tanbrisio'r cyfraniad y mae pobl sy'n symud i mewn yn ei wneud i Gymru. Yn aml roeddynt yn gefnogol ac yn ymroddedig i Gymru a'r iaith.

5.12 Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am eu cyfraniadau. Cytunwyd y byddai'r pwyllgor yn ystyried cynnwys materion sy'n codi proffil yr iaith Gymraeg yn ei raglen waith. Byddai'r Cadeirydd hefyd yn ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant yn rhoi crynodeb o'r drafodaeth a'r cyfraniad y gallai'r pwyllgor ei wneud i'r adolygiad.

**Eitem 6: Adolygu TGCh yng nghefn gwlad**

6.1 Dywedodd y Clerc wrth y pwyllgor ei fod wedi cytuno ar y cylch gorchwyl ar gyfer yr adolygiad yn ei gyfarfod ar 18 Gorffennaf. Gofynnwyd wedyn am farn ysgrifenedig gan nifer o fudiadau sydd â diddordeb. Roedd y sylwadau a dderbyniwyd wedi cael eu dosbarthu i'r aelodau. Cynigiai'r papur raglen o gasglu tystiolaeth y gofynnid yn awr i'r pwyllgor ei chymeradwyo.

6.2 Awgrymwyd y dylai'r pwyllgor ystyried rôl bosibl clybiau e-fusnes er mwyn gwella'r feddylfryd busnes, mynediad at wasanaethau ADSL a datblygu gwasanaethau microdon.

6.3 Cytunodd y pwyllgor i'r rhaglen arfaethedig.

**Eitem 7: Cofnodion y cyfarfod diwethaf** - ARD 14-01(min)
7.1 Roedd y mater o frechu er mwyn rheoli clwy'r traed a'r genau wedi cael ei godi yn ystod y cyfarfod. Roedd y Gweinidog wedi dweud y gallai ddarparu esboniad ysgrifenedig ar y rhesymau yn erbyn brechu. Ni chafodd hyn ei adlewyrchu yn y cofnodion. Cytunwyd y byddai'r wybodaeth yn cael ei darparu yn adroddiad y Gweinidog i'r cyfarfod nesaf. Cymeradwywyd y cofnodion wedyn gan y pwyllgor.

*Pwyntiau gweithredu*

7.2 Esboniad o'r dadleuon o blaid ac yn erbyn brechu i'w ddarparu yn adroddiad y Gweinidog i'r cyfarfod nesaf - **Gweinidog** (yr Is-adran Iechyd Anifeiliaid)

**Ysgrifenyddiaeth** **Hydref 2001**

---

**Atoddiad 1**

## CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

## ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR AMAETHYDDIAETH A DATBLYGU GWLEDIG

### Rheoliadau Hadau Grawnfwydydd (Diwygio) (Cymru) 2001

### Rheoliadau Hadau Betys (Diwygio) (Cymru) 2001

### Rheoliadau Hadau Planhigion Porthiant (Diwygio) (Cymru) 2001

### Rheoliadau Hadau Planhigion Olew a Ffibr (Diwygio) (Cymru) 2001

### Rheoliadau Hadau Llysiau (Diwygio) (Cymru) 2001

### Rheoliadau Tatws Hadyd (Diwygio) (Cymru) 2001

Yn unol â Rheol Sefydlog 22.5 cyfeiriodd y Dirprwy Lywydd y Rheoliadau uchod i'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ar 23 Hydref 2001, gan roi gorchwyl i'r Pwyllgor adrodd yn ôl cyn pen pythefnos.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y Rheoliadau yn ystod ei gyfarfod ar 24 Hydref. Roedd yr Aelodau am nodi eu hanfodlonrwydd am iddynt orfod ystyried y Rheoliadau ar fyr rybudd. Credai'r Aelodau nad oedd hyn wedi caniatáu iddynt roi ystyriaeth briodol i'r Rheoliadau ac oherwydd hynny teimlai rhai ohonynt na allent wneud sylwadau yn eu cylch.

**Ar ôl pleidlais, argymhellodd mwyafrif Aelodau'r Pwyllgor fod y Rheoliadau'n mynd rhagddynt heb eu diwygio.**

**Glyn Davies AC**
**Cadeirydd, Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig**

---

**Atodiad 2**

Image35.gif (53655 bytes)

**Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig**
**Agriculture and Rural Development Committee**

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff CF99 1NA

Carwyn Jones AC
Gweinidog dros Faterion Gwledig
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

31 Hydref 2001

Annwyl Carwyn

**Y CYLCH CYNLLUNIO CYLLIDEB A CHORFFORAETHOL (BPR) 2001**

Yn unol â Rheol Sefydlog 19.2, gofynnoch am safbwyntiau'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ar y gyllideb ddrafft a nodwyd gan y Cynulliad ar 9 Hydref. Trafodwyd y gyllideb ddrafft gan y Pwyllgor ar 24 Hydref ac mae'n gofyn i chi hysbysu'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau am y pwyntiau canlynol.

Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol mai ei rôl o dan Reol Sefydlog 19 yw cyflwyno sylwadau ar gydbwysedd gwariant o fewn y gyllideb yn hytrach na'r gyllideb yn ei chyfanrwydd. Serch hynny, o ystyried maint y problemau a wynebwyd gan yr economi gwledig dros y flwyddyn ddiwethaf, byddai aelodau'r Pwyllgor yn dadlau dros gyflwyno adnoddau ychwanegol. I'r diben hwn, mae'r Pwyllgor yn croesawu'r gefnogaeth a roddir i'r economi gwledig gan y Cynllun Adfer Cefn Gwlad. Mae aelodau'r Pwyllgor yn anfodlon fodd bynnag nad yw'r gyllideb ddrafft yn nodi'r ffynonellau cyllid hyn yn y gyllideb Datblygu Amaethyddiaeth a Chefn Gwlad neu'r Prif Grwpiau Gwariant perthnasol eraill. Byddai mwy o eglurder wrth gyhoeddi data ynglyn â chyllideb yn cynorthwyo Pwyllgorau ac eraill gyda'r gwaith o fonitro ac archwilio'r defnydd a wneir o'r ffynonellau cyllid ychwanegol hyn.

Yn fy llythyr dyddiedig 19 Gorffennaf yn nodi blaenoriaethau cyllideb y pwyllgor, nodais fod rhai aelodau o'r farn y dylid ariannu pecyn ar wahân i gynorthwyo'r rheiny sy'n newydd i ffermio i ymsefydlu, ynghyd â chynllun ymddeol. Gofynnodd yr aelodau i mi ailadrodd y pwynt hwn er, fel cynt, nid oedd pob aelod o'r pwyllgor yn gefnogol i'r cynnig.

Yn gywir

**Glyn Davies**
Cadeirydd